

Addysg Heblaw yn yr Ysgol Briff Ymchwil

Tachwedd 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6292**

E-bost: Sian.Hughes@Cynulliad.Cymru

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: SeneddYmchwil.blog

LinkedIn: [Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/ymchwil-y-senedd)

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ymchwil y Senedd

Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Briff Ymchwil

Tachwedd 2019

Awdur:
Sian Hughes



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynnwys

Beth yw Addysg Heblaw yn yr Ysgol	1
1. 1. Mathau o Addysg Heblaw yn yr Ysgol	2
Ystadegau ar Addysg Heblaw yn y Cartref	4
Niferoedd disgyblion.....	4
Nodweddion disgyblion	5
Cyrhaeddiad	5
Adolygiadau o Addysg Heblaw yn yr Ysgol	8
Ymchwil Prifysgol Caeredin.....	8
Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru.....	9
Adolygiad Estyn	10
Fframwaith Gweithredu Addysg Heblaw yn yr Ysgol	11
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	13
Materion perthnasol eraill	14
Gwaharddiadau.....	14
Symudiadau wedi'u rheoli.....	15
Tynnu enwau disgyblion oddi ar y gofrestr	16
Darllen pellach.....	18

Beth yw Addysg Heblaw yn yr Ysgol

I rai dysgwyr, efallai na fydd addysg mewn ysgol brif ffrwd yn briodol, am lawer o wahanol resymau. Felly, mae adran 19 (1) o **Ddeddf Addysg 1996** (Deddf 1996) yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol wneud:

arrangements for the provision of suitable education at school or otherwise than at school [EOTAS] for those children of compulsory school age who, by reason of illness, exclusion from school or otherwise, may not for any period receive suitable education unless such arrangements are made for them.

Ar hyn o bryd mae 2,286 o ddisgyblion yn cael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae hyn yn cynrychioli 3.8 am bob 1,000 o ddisgyblion. Mae Adran 2 y papur hwn yn darparu rhai ystadegau pellach.

Mae Deddf 1996 yn diffinio addysg addas fel addysg effeithlon sy'n addas ar gyfer oedran, gallu, dawn, ac anghenion addysgol arbennig (AAA) y plentyn (neu'r person ifanc). Nid yw'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i hyn fod yn addysg lawn-amser.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, **Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016**, yn nodi dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac ysgolion. Noda fel a ganlyn:

Rhaid i awdurdodau lleol benderfynu, ar ôl ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr, pa fath o ddarpariaeth fyddai'n sicrhau addysg addas y tu allan i'r ysgol i blentyn penodol, gan roi sylw i bolisiau'r awdurdod lleol, defnydd effeithlon o adnoddau a'r canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai'r math o ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion fod yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. Dylid sefydlu cynllun unigol i bob disgybl yn dilyn ymgynghori llawn rhwng pawb y mae'r cynllun yn ymwneud â hwy gan gynnwys disgyblion, y rhieni neu ofalwyr, yr ysgol a gynhelir, yr awdurdod lleol a'r rhai sy'n rhoi'r ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol.

Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn bodoli, yn rhannol, fel ymateb i wahardd disgyblion o'r ysgol. Gallai hyn gynnwys lleoli mewn addysg heblaw yn yr ysgol o ganlyniad i waharddiad disgyblu ffurfiol neu leoli fel dewis arall yn lle gwaharddiad. Gellir defnyddio addysg heblaw yn yr ysgol hefyd lle ystyrir nad yw ysgol yn amgylchedd addas ar gyfer rhai grwpiau o ddysgwyr, fel disgyblion sy'n feichiog neu ddysgwyr ag anghenion meddygol.

1. 1. Mathau o Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Gellir darparu ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol mewn nifer o wahanol leoliadau, megis unedau cyfeirio disgyblion, colegau addysg bellach, gwersi unigol neu mewn ysgol annibynnol.

Mae adran 19 (2) o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi y bydd unrhyw ysgol a sefydlwyd sydd wedi'i threfnu'n arbennig i ddarparu addysg i blant na allant, am resymau gwahardd neu salwch, gael addysg ac nad yw'n ysgol sirol nac yn ysgol arbennig, yn cael ei hadnabod fel Uned Cyfeirio Disgyblion. **Unedau cyfeirio disgyblion oedd y math o addysg heblaw yn yr ysgol a ddefnyddiwyd fynychaf yn 2018/19.**

Yn gyfreithiol, mae unedau cyfeirio disgyblion yn fath o ysgol ac addysg heblaw yn yr ysgol. Gallant ddarparu lleoliadau tymor byr neu dymor canolig gyda disgyblion yn ailintegreiddio i ysgol gynradd, uwchradd neu arbennig, neu baratoi dysgwyr ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae awdurdodau lleol yn gweithredu gwahanol fodolau o ddarpariaeth unedau cyfeirio disgyblion, a ddatblygwyd i fodloni eu hamgylchiadau lleol a'u polisiau lleol eu hunain. Mae'r modelau darpariaeth y gellir eu cynnwys yn y term 'Unedau Cyfeirio Disgyblion' yn cynnwys:

- Darpariaeth ar un safle neu ddarpariaeth ar sawl safle o dan un strwythur rheoli;
- Gwasanaeth atgyfeirio disgyblion teithiol (athrawon 'ymweld' a all weithio mewn mwy nag un lle), yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;
- Darpariaeth 'e-ddysgu' gan ddefnyddio TGCh ac adnoddau ar y we;
- Peth darpariaeth mewn ysbyty;
- Darpariaeth ar wahân ar gyfer mamau ifanc / disgyblion beichiog; a
- Darpariaeth i gofrestru disgyblion sy'n dilyn rhaglenni unigol.

Ym mis Hydref 2019, roedd 22 o unedau cyfeirio disgyblion cofrestredig yng Nghymru.

Yn ogystal ag unedau cyfeirio disgyblion gall awdurdodau lleol ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol trwy'r canlynol:

- Colegau Addysg Bellach
- Gwersi unigol a gwersi yng nghartrefi disgyblion neu yn yr ysbyty;
- Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith;
- Darparwyr hyfforddiant

- Sefydliadau'r trydydd sector
- Pecynnau wedi'u teilwra.

Mae Tabl 1 isod yn dangos y ddarpariaeth addysg i ddisgyblion a oedd yn cael addysg heblaw yn yr ysgol yn 2018/19.

Darpariaeth addysgol	Nifer cofrestriadau	Canran cofrestriadau
Uned cyfeirio disgyblion (a)	820	43.5
Coleg addysg bellach	209	11.1
Ysgol a gynhelir	92	4.9
Ysgol arbennig nas cynhelir	68	3.6
Addysg unigol	265	14.0
Porth Ieuenctid	0	0.0
Addysg gysylltiedig â gwaith	15	0.8
Darparwr addysg	38	2.0
Sefydliad gwirfoddol	0	0.0
Darpariaeth sector preifat y telir amdani	18	1.0
Ysgol annibynnol	270	14.3
Darpariaeth nas cynhelir, neu'r tu allan i awdurdod	17	0.9
Disgwyl darpariaeth neu ddim mewn darpariaeth ar	28	1.5
Arall	47	2.5
Cyfanswm	1,887	100.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, 2018/19**

(a) Mae'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ond sydd â dim oriau o ddarpariaeth wedi'u heithrio o'r tabl hwn.

Gan y gall disgyblion gael mwy nag un ddarpariaeth addysgol mewn wythnos, mae'n bosibl y caiff rhai disgyblion eu cyfrif ar gyfer mwy nag un ddarpariaeth. Dyna pam fod nifer y cofrestriadau'n uwch na nifer y disgyblion y mae eu prif addysg yn addysg heblaw yn yr ysgol.

Nid yw'r term Addysg Heblaw yn yr Ysgol **yn gymwys i ddisgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref**, sef pan fo rhieni'n penderfynu addysgu eu plentyn gartref yn hytrach nag yn yr ysgol.

Ystadegau ar Addysg Heblaw yn y Cartref

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **datganiad ystadegol blynyddol ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol**. Cyhoeddwyd y data mwyaf diweddar ar 1 Awst 2019 ac mae'n darparu data ar gyfer 2018/19. Mae rhai o'r prif bwyntiau wedi'u rhestru isod.

Niferoedd disgyblion

Yn 2018/19, roedd **2,286 o ddisgyblion yn cael addysg heblaw yn yr ysgol**. O'r rhain:

- Nid oedd 1,027 o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ar gofrestr ysgol a gynhelir yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion mis Ionawr 2019. Roedd gan 757 o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol statws cofrestru 'atodol' mewn ysgolion a gynhelir; ac
- Roedd gan 502 o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' mewn ysgolion a gynhelir.

Cynyddodd cyfradd y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn ystod 2018/19 i **3.8 am bob 1,000 o ddisgyblion**. Dyma'r gyfradd uchaf ers 2009/10, pan oedd yn 2.6 am bob 1,000.

Gall disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fod â chofrestriad sengl gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol a bod heb eu cofrestru mewn unrhyw ysgol, neu fod â chofrestriad deuol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol a'r ysgol.

Pan fydd disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol gyda dau ddarparwr, bydd un o'r darparwyr yn cofrestru'r disgybl fel cofrestriad deuol-prif a bydd y llall yn cofrestru'r disgybl fel cofrestriad deuol-atodol. Deuol-prif yw'r ddarpariaeth lle mae disgybl yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser. Bydd unrhyw ddeilliannau Cyfnod Allweddol 4 ar ddiwedd Blwyddyn 11 ar gyfer disgybl sydd â chofrestriad deuol-prif yn cyfrif tuag at ddata perfformiad y darparwr hwn. Cofrestriad deuol-atodol yw'r darparwr addysg arall pan fydd gan ddisgybl gofrestriad deuol. Ni fydd unrhyw ddeilliannau Cyfnod Allweddol 4 ar ddiwedd Blwyddyn 11 ar gyfer disgybl sydd â chofrestriad deuol-atodol yn cyfrif tuag at ddata perfformiad y darparwr hwn.

Nodweddion disgyblion

Yn 2018/19, ar gyfer disgyblion y mae eu prif addysg yn addysg heblaw yn yr ysgol:

- Bechgyn oedd 7 ym mhob 10 disgybl.
- Roedd 6 ym mhob 10 yn 14 neu 15 oed.
- Disgyblion 15 oed oedd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol o'r holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol.
- Roedd gan 88 y cant o ddisgyblion y mae eu prif addysg yn addysg heblaw yn yr ysgol anghenion addysgol arbennig (hynny yw, â datganiad, gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy);
- Roedd gan 36 y cant o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol hawl i brydau ysgol am ddim; ac
- Roedd prif addysg 4.5 allan o 1,000 o ddisgyblion o gefndir ethnig 'gwyn' yn addysg heblaw yn yr ysgol. Dyma'r gyfradd uchaf o'r holl grwpiau cefndir ethnig.

Cyrhaeddiad

Mae Tabl 2 isod yn dangos cyrhaeddiad dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae Tabl 3 yn dangos cyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae'n bwysig nodi'r **anawsterau sy'n gysylltiedig â chymharu dysgwyr sy'n cael Addysg Heblaw yn y Cartref â dysgwyr prif ffrwd ar yr un sail. Nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cael Addysg Heblaw yn y Cartref yn dechrau o'r un llinell sylfaen â dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd**, ac nid yw dangosyddion perfformiad, fel Lefel 2 cynhwysol, yn adlewyrchu'r 'pellter a deithiwyd' ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, a'r gwaith pwysig y mae staff addysg heblaw yn yr ysgol yn ei wneud i fynd i'r afael â'r anghenion lles y mae carfan agored i niwed o ddysgwyr yn eu hwynebu, sy'n aml yn gymhleth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar gyfer disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4, ond nid oes unrhyw ddata cenedlaethol ar gael ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol mewn Cyfnodau Allweddol eraill ac mewn mathau eraill o ddarpariaeth.

Tabl 2: Dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer disgyblion a gafodd eu prif addysg drwy uned cyfeirio disgyblion

	Nifer disgyblion 15 oed/blwyddyn 11 ⁽¹⁾	Canran sydd wedi cyrraedd Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg ⁽²⁾
2014	297	0.7
2015	256	2.3
2016	368	2.4
2017	246	3.3
2018	367	2.2

Ffynhonnell: [StatsCymru](#)

(1) O 2015/16, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion a oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

(2) Lefel 2 cynhwysol: nifer cymwysterau ar Lefel 2 (sy'n cyfateb i 5 TGAU â gradd A*-C) gan gynnwys llwyddo â gradd A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg.

(3) Sylwer y bu newidiadau yn y modd y mae'r trothwy lefel 2 cynhwysol yn cael ei fesur o 2016/17 ymlaen.

At ddibenion cymharu, mae Tabl 3 isod yn dangos cyrhaeddiad yr **holl ddisgyblion** ym Mlwyddyn 11. Mae'r data hyn yn cynnwys y disgyblion hynny sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion.

Tabl 3: Dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 i ddisgyblion ym mlwyddyn 11 neu 15 oed fesul blwyddyn

	Nifer disgyblion 15 oed/blwyddyn 11 ⁽¹⁾	Canran sydd wedi cyrraedd Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg ⁽²⁾
2014	35,168	55.4
2015	34,004	57.9
2016	32,248	60.3
2017	31,379	54.6
2018	30,371	55.1

Ffynhonnell: [StatsCymru](#)

(1) O 2015/16, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion a oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

(2) Lefel 2 cynhwysol: nifer cymwysterau ar Lefel 2 (sy'n cyfateb i 5 TGAU â gradd A*-C) gan gynnwys llwyddo â gradd A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg.

Adolygiadau o Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Bu nifer o adolygiadau o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yng Nghymru a llawer o ymchwil iddi. Mae'r rhain wedi cynnwys yr **Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR)** gan Lywodraeth Cymru (2008), yr **Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol** (2011) ac **Adroddiadau blynyddol Estyn**. Fe wnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ystyried Addysg Heblaw yn yr Ysgol fel rhan o'i ymchwiliad i **Bresenoldeb ac Ymddygiad** yn 2013 hefyd. Nododd yr adroddiadau ystod o faterion gan gynnwys:

- Amrywiad
 - ◆ Rhwng awdurdodau lleol o ran gweithredu canllawiau ar wahardd o'r ysgol;
 - ◆ Rhwng ysgolion o ran rheoli gwaharddiadau gwirioneddol a phosibl;
 - ◆ Rhwng awdurdodau o ran ansawdd y cwricwlwm a rheoli ymddygiad;
- Achosion o wahardd yn anghyfreithlon o ysgolion.
- Darpariaeth addysgol yn peidio â chael ei monitro'n iawn;
- Rhai disgyblion ddim yn derbyn addysg briodol; a
- Diffyg ailintegreiddio yn ôl i ysgolion ar ôl eu gwahardd ac o addysg y tu allan i'r ysgol.

Ymchwil Prifysgol Caeredin

Yng ngoleuni'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, yn 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru **ymchwil gan Brifysgol Caeredin i archwilio'r** broses o wahardd o ysgolion yng Nghymru a chyflwyno, cynllunio a chomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Ymhlith canfyddiadau allweddol 'adroddiad Caeredin' roedd amrywioldeb o ran y canlynol:

- Nifer y lleoedd addysg heblaw yn yr ysgol sydd ar gael, natur a diben y ddarpariaeth, meini prawf atgyfeirio a'r ffyrdd yr oedd darpariaeth addysg mewn gwahanol ardaloedd yn adnabod ei nodau a'i dibenion;
- Roedd nifer yr oriau o addysg a ddarperir yn amrywio ar draws awdurdodau lleol o ddwy awr y dydd i ddarpariaeth lawn o 25 awr yr wythnos, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau yn newid i gynig 25 awr yr wythnos; a
- Dulliau o gofrestru, gan godi mater sylfaenol ynghylch perchnogaeth ar gyfrifoldeb dros bobl ifanc mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi:

- Pryderon ynghylch ansawdd y cwricwlwm yn y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol mewn rhai achosion, er bod llawer o gyfranogwyr yn yr ymchwil yn cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â darparu cwricwlwm llawn i blant sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol;
- Roedd ystafelloedd anaddas ac o ansawdd gwael yn broblem arwyddocaol mewn perthynas â chyflwyno'r cwricwlwm yn y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol mewn rhai achosion;
- Rhai pryderon ynghylch defnyddio ataliaeth ac ynysu cyfyngol mewn modd rhy gosbol;
- Nid oedd ailintegreiddio i mewn i ysgolion prif ffrwd wedi bod yn arfer cyffredin;
- Roedd rhai lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol yn gyson yn cyfathrebu mewn modd cadarnhaol gyda rhieni ynghylch cynnydd eu plentyn;
- Roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r parch a oedd yn cael ei ddangos iddynt mewn rhai lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol ond nid oeddent bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau am eu bywydau a'u cynllunio;
- Nododd rhai staff sy'n gweithio ym maes addysg heblaw yn yr ysgol faterion sy'n peri pryder gydag arweinyddiaeth, craffu a chymorth mewn unedau cyfeirio disgyblion; ac
- Roedd tystiolaeth bod rhai unedau cyfeirio disgyblion, mewn rhai awdurdodau, yn dal i fod yn ynysig iawn, er eu bod yn cymryd rhan mewn mentrau lleol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac ymddygiad mewn awdurdodau eraill.

Canfu'r ymchwil fod sail dda i lawer o'r pryderon a fynegwyd yn yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, adroddiadau Estyn ac Adolygiad Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, canfu dystiolaeth hefyd fod rhai awdurdodau yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r pryderon hyn gyda newid sylweddol a sylw i wella ansawdd addysg heblaw yn yr ysgol.

Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru

Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd y Comisiynydd Plant adroddiad, **Yr Hawl i Ddysgu**. Canfu'r adroddiad fel a ganlyn:

- Diffyg cefnogaeth amserol ac ymyrraeth i ddysgwyr yn gynharach yn eu gyrfa ysgol;
- Mewn rhai ardaloedd, roedd gwaith rhyngasiantaeth i gefnogi disgyblion yn wan;

- Gallai fod yn anodd sicrhau hyfforddiant priodol i staff mewn unedau cyfeirio disgyblion;
- Roedd heriau'n bodoli o ran darparu'r cwricwlwm;
- Mae unedau cyfeirio disgyblion wedi'u hynysu o'r rhwydweithiau gwybodaeth sy'n cefnogi arloesi a datblygu ym myd addysg.

Adolygiad Estyn

Ym mis Hydref 2014, cynhaliodd Estyn adolygiad i fapio darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ledled Cymru ac adolygu pa mor effeithiol yr oedd awdurdodau lleol yn rheoli'r ddarpariaeth. Canfu'r adroddiad, sef **Addysg Heblaw yn yr Ysgol** a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015, ar y cyfan, nad yw darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn rhoi'r un mynediad i'r disgyblion at eu hawliau addysg ag y mae eu cyfoedion yn ei gael. Roedd canfyddiadau eraill yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys sy'n galluogi dysgwyr i ennill cymwysterau sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i gyrraedd eu potensial;
- Cyfleoedd cyfyngedig iawn i ddisgyblion a fu'n mynychu ysgolion Cymraeg yn flaenorol i barhau i ddysgu yn y Gymraeg pan fyddant yn dechrau cael addysg heblaw yn yr ysgol;
- Nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn aml yn cael y cymorth arbenigol mae ei angen arnynt;
- Mae bron yr holl ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn parhau i'w chael am weddill eu cyfnod yn yr ysgol;
- Mae bron pob awdurdod lleol yn cael trafferth sicrhau bod disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael mynediad at arbenigedd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS);
- Ledled Cymru, mae diffyg dealltwriaeth am y gofynion cofrestru ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol;
- Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn goruchwyllo addysg heblaw yn yr ysgol na darpariaeth amgen yn ddigon cadarn;
- Ychydig iawn o athrawon addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig y rhai a gyflogir gan ddarparwyr annibynnol, sydd â mynediad at hyfforddiant a chymorth; ac
- Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol lawn-amser i grwpiau mawr o ddisgyblion gan ddarparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru fel ysgolion annibynnol.

Fframwaith Gweithredu Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd yn yr adroddiadau hyn, ym mis Medi 2015, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol, dan gadeiryddiaeth Ann Keane, cyn-Brif Arolygydd Estyn. Gofynnwyd i'r grŵp ddatblygu atebion ymarferol i'r problemau a wynebir gan unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn fwy eang i wella deilliannau dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

Cyhoeddwyd y **Fframwaith Gweithredu newydd ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol** ym mis Rhagfyr 2017. Sefydlwyd Grŵp Cyflawni Addysg Heblaw yn yr Ysgol hefyd i hwyluso a chyflawni'r camau gweithredu terfynol y cytunwyd arnynt. Dywedodd y Gweinidog Addysg, Kirtsy Williams, fod y cyhoeddiad yn **'nodi dechrau'r diwygiad mwyaf o unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth EOTAS yng Nghymru'**.

Mae'r Fframwaith yn gynllun tymor hir gyda dull graddol o weithredu'r cynigion gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn modd ystyriol ac amserol.

Dyma brif ddarpariaethau'r Fframwaith:

- **Sefydlu paneli Addysg Heblaw yn yr Ysgol**, (megis y rhai sy'n gweithredu ar hyn o bryd mewn rhai awdurdodau lleol) a fyddai'n sicrhau y caiff dysgwyr eu hatyfeirio mewn modd cadarn a chyson. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau ar ôl rhagor o ymchwil i baneli addysg heblaw yn yr ysgol presennol. **Cyhoeddwyd yr ymchwil hon wedyn ym mis Hydref 2018.**
- **Hyfforddiant ar gyfer pwyllgorau rheoli.** Daeth rheoliadau sy'n ymwneud â phwyllgorau rheoli i rym ym mis Chwefror 2015 ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli unwaith y bydd y gofynion ffurfiol wedi cael cyfle i ymsefydlu. **Gofynnwyd i Estyn adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion yn ystod 2018/19.**

- **Fframweithiau comisiynu Addysg Heblaw yn yr Ysgol.** Awgrymodd Estyn ei bod yn bosibl bod awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr preifat, sydd o bosibl heb eu cofrestru ac yn anghyfreithlon. Cynigiodd Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu fframweithiau comisiynu ar gyfer gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol a fydd â set o ganllawiau i ddarparwyr gael statws cymeradwy. Mae ymchwil i dulliau comisiynu yn cael ei chynnal a disgwylir i adroddiad ar y canfyddiadau gael ei gyhoeddi yn hydref 2019.
- **Rhannu gwybodaeth a data.** Mae data cyrhaeddiad ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu cyhoeddi ers 2016. Mae cymharu data ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr â dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd yn anodd gan nad ydynt yn gyfatebol a chan nad yw data'n ystyried y 'pellter a deithiwyd' gan ddysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.
- **Diwygio'r cwricwlwm.** Trwy'r diwygiadau i'r cwricwlwm, dylai fod hyblygrwydd i ddatgymhwysu'r cwricwlwm mewn unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau eraill, gyda'r posibilrwydd i'r paneli mynediad fod yn gyfrifol am y penderfyniadau. Mewn **tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Medi 2019**, eglurodd y Gweinidog Addysg mai'r bwriad oedd gosod isafswm o ran yr hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddysgwr ei gael. Byddai hyn yn seiliedig ar **bedwar diben y cwricwlwm**, themâu trawsbynciol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Ochr yn ochr â hyn, byddai trafodaeth a ffocws ar yr hyn sydd orau er budd pennaf disgyblion unigol.
- **Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth.** Er mwyn ateb gofynion y cwricwlwm newydd, bydd angen i unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol weithio gydag ysgolion a darparwyr addysg bellach. Dylai unedau cyfeirio disgyblion fod â mynediad at gonsortia rhanbarthol, ond efallai na fydd gan ddarparwyr eraill addysg heblaw yn yr ysgol fynediad atynt. Bydd y Grŵp Cyflawni Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Llywodraeth Cymru yn archwilio hyn.

Nododd y Fframwaith nifer o gamau gweithredu ar sail argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Estyn ac Adolygiad Caeredin **Ysgrifennodd** y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mehefin 2019 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r camau gweithredu.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Fe lansiodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad i Addysg Heblaw yn yr Ysgol ym mis Mehefin 2019. Mae'r Pwyllgor yn ystyried:

- Y cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys drwy eu gwahardd o ddarpariaeth brif ffrwd, a'r rhesymau dros y cymorth hwn
- Pa mor effeithiol y caiff rhieni gymorth a'u cynnwys drwy gydol proses addysg heblaw yn yr ysgol
- Yr amrywiad mewn cyfraddau addysg heblaw yn yr ysgol i blant a phobl ifanc â nodweddion penodol (megis dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) a chanlyniadau hyn
- Lefelau'r cymorth ariannol sydd ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, a'r rhai sydd mewn perygl o'i chael, ac a yw hyn yn cynrychioli gwerth am arian
- Cyfrifoldeb ac atebolrwydd am addysg disgyblion sy'n dod yn rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol
- Cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol
- Canlyniadau a llesiant plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol
- Ansawdd y cymorth a roddir i blant a phobl ifanc yn yr ystod o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol
- Cymorth datblygiad proffesiynol i staff unedau cyfeirio disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n darparu addysg yn y cartref
- Y risgiau posibl i blant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fel rhwystrau cynyddol i gael gafael ar gymorth iechyd meddwl, mwy o risg o ymwneud â throedd a'r system cyfiawnder troseddol megis 'llinellau cyffuriau'.
- Materion eraill sydd â chysylltiad agos ag addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft symudiadau wedi'u rheoli, a dadgofrestru disgyblion

Bydd y Pwyllgor yn cymryd dystiolaeth ar ddiwedd 2019 a dechrau 2020 cyn cyhoeddi adroddiad yn nodi eu casgliadau ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Materion perthnasol eraill

Gwaharddiadau

Fel a nodwyd yn flaenorol, mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn bodoli'n rhannol mewn ymateb i wahardd o'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru **yn cyhoeddi datganiad ystadegol blynyddol ar waharddiadau parhaol ac am gyfnod penodol o ysgolion cynradd, canol, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru.**

Gall gwaharddiadau o ysgolion fod naill ai am gyfnod penodol, neu bum niwrnod neu lai neu dros bum niwrnod, neu'n barhaol. Roedd cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn 0.4 am bob 1,000 o ddisgyblion yn 2016/17 a 2017/18, ond roedd hyn ddwywaith yn fwy na'r gyfradd yn y pedair blynedd flaenorol (2012/13 i 2015/16). Mae Tabl 4 isod yn dangos nifer a chyfradd y gwaharddiadau dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Tabl 4: Nifer a chyfradd gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru, 2014/15 i 2017/18 (a) (b)

	2014/15		2015/16		2016/17		2017/18	
	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd
Parhaol	89	0.2	109	0.2	165	0.4	174	0.4
Pum diwrnod neu lai	13,014	29.9	14,424	30.9	16,044	34.4	17,146	36.7
Chwe diwrnod neu fwy	780	1.7	654	1.4	863	1.9	806	1.7

Ffynhonnell: **Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2017 i Awst 2018**

(a) Dim ond ar gyfer y blynyddoedd o 2015/16 ymlaen y cynhwysir gwaharddiadau o unedau cyfeirio disgyblion.

(b) Nodir y gyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion.

Rhai pwyntiau allweddol eraill sy'n codi o'r data yw:

- Ysgolion arbennig oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau am gyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai, a hefyd y gyfradd uchaf o waharddiadau am gyfnod penodol o fwy na 5 diwrnod, ac ysgolion cynradd oedd â'r isaf.
- Ysgolion uwchradd oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau parhaol.
- Mae cyfradd y gwaharddiadau'n gyson (o leiaf 3 gwaith) **yn uwch ar gyfer y rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim** na'r rhai heb hawl i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer gwaharddiadau am gyfnod penodol (5 diwrnod neu lai), gwaharddiadau am gyfnod penodol (dros 5 diwrnod) a gwaharddiadau parhaol yn y cyfnod rhwng 2012/13 a 2016/17.
- Mae gan ddisgyblion ag **anghenion addysgol arbennig gyfraddau gwahardd uwch** na'r rhai hebddynt. Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau o blith y disgyblion ag AAA ar gyfer pob blwyddyn a phob math o waharddiad; a hefyd
- Y rheswm mwyaf cyffredin dros yr holl waharddiadau yn 2017/18 oedd **'ymddygiad aflonyddgar parhaus'**. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros waharddiadau parhaol oedd 'ymosodiad corfforol ar ddisgybl' (20.7 y cant) ac 'ymosodiad corfforol ar oedolyn' (20.1 y cant).

Symudiadau wedi'u rheoli

Mae symudiad wedi'i reoli'n symudiad gwirfoddol a gynlluniwyd o un ysgol i ysgol newydd. Gellir ystyried ei fod yn ddewis amgen addas lle mae disgybl mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol, yn peri risg i les pobl eraill neu'n gwrthod mynd i'r ysgol. Yn wahanol i waharddiad parhaol, mae symudiad wedi'i reoli yn gofyn am gydsyniad pawb sy'n gysylltiedig â'r achos ac, ar hyn o bryd, nid oes statws cyfreithiol iddo.

Cyhoeddodd Estyn **Symudiadau Rheoledig: Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion** ym mis Mawrth 2018 yn dilyn ei hadolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol a gyhoeddwyd yn 2016. Roedd y prif ganfyddiadau yn cynnwys:

- Nid yw symudiad rheoledig yn rhoi'r un amddiffyniad cyfreithiol i ddisgyblion â'r rhai sy'n cael eu gwahardd o ysgolion yn barhaol, megis darpariaeth addysg dros dro a hawl i apelio;
- Nid oes unrhyw brotocol cenedlaethol cytûn ar gyfer symudiadau rheoledig, felly mae gwahaniaethau nodedig yn y modd y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithredu ac yn monitro symudiadau rheoledig ledled Cymru;

- Er nad oes unrhyw wybodaeth ddibynadwy ar gael yn genedlaethol am nifer y disgyblion sy'n destun symudiadau rheoledig, mae data a gasglwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer adroddiad Estyn yn dangos bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r rhai sydd ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, yn fwy tebygol o fod yn destun symudiad rheoledig.
- Mae lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn trosglwyddo i leoliadau mewn darpariaeth UCD neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) - mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn cwblhau eu haddysg orfodol y tu allan i'r brif ffrwd.

Tynnu enwau disgyblion oddi ar y gofrestr

Tynnu oddi ar y gofrestr yw'r broses lle mae disgyblion yn cael eu tynnu oddi ar gofrestr ysgol trwy eu symud i ddarpariaeth amgen, i addysg yn y cartref neu ysgolion eraill. Yr awgrym yw bod rhai ysgolion yn tynnu disgyblion problemus, sy'n ymddwyn yn wael neu sy'n dlawd yn academaidd o'u cofrestrau fel nad ydyn nhw'n cael eu cyfrif yng nghanlyniadau TGAU yr ysgol. Codwyd ychydig o bryderon ynghylch y mater hwn yng Nghymru a Lloegr:

- Cyhoeddodd Robin Hughes, cyn-ysgrifennydd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) yng Nghymru, erthygl blog, sef [Rolling off the school register](#), ar 18 Medi 2018.
- Ar **17 Medi 2018, mewn erthygl ar wefan BBC Cymru**, dywedodd Tim Pratt (Cyfarwyddwr y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yng Nghymru) ei fod yn credu bod rhai enghreifftiau o enwau disgyblion yn cael eu tynnu oddi ar gofrestrau fel na fyddai eu graddau'n cyfrif tuag at y data ar berfformiad yr ysgol.

Gan edrych ar ddata ar [wefan StatsCymru](#) Llywodraeth Cymru, a dilyn y garfan o ddisgyblion a oedd ym Mlwyddyn 8 ym mlwyddyn academaidd 2015/16:

- Roedd y garfan ym Mlwyddyn 8 yn 31,630 o ddisgyblion;
- Yn 2016/17, roedd y garfan ym Mlwyddyn 9 yn 31,570 o ddisgyblion;
- Yn 2017/18, roedd y garfan ym Mlwyddyn 10 yn 31,640 o ddisgyblion; ac
- Yn 2018/19, roedd y garfan ym Mlwyddyn 11 yn 30,535 o ddisgyblion.

Mae 1,105 yn llai o ddisgyblion yn yr un garfan rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, gostyngiad o 3.4 y cant. Dylid nodi y gallai fod nifer o resymau dros y gostyngiad, megis disgyblion yn gadael eu hysgol i fynd i ysgol arall a gynhelir nad yw yng Nghymru, neu i ysgol nas cynhelir.

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Estyn adroddiad, [Arferion Cofrestru Disgyblion](#). Roedd hwn yn archwilio arferion cofrestru ac yn benodol ysgolion yn tynnu enwau disgyblion oddi ar y gofrestr heb ddefnyddio gwaharddiad parhaol (tynnu oddi ar y gofrestr) ac ysgolion yn newid statws cofrestru disgybl rhwng mis Ionawr ym Mlwyddyn 10 a mis Ionawr ym Mlwyddyn 11 (adeg y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) fel nad yw eu data yn cael ei gynnwys yn nata perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yr ysgol.

Mae'r adroddiad yn nodi y bu cynnydd yn argaeledd data perfformiad ysgolion yn yr 20 mlynedd ddiwethaf ac y bu cynnydd yn y defnydd o ddata o'r fath at ddibenion atebolrwydd ysgolion yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae'n awgrymu y gallai mesurau atebolrwydd fod wedi achosi canlyniadau anfwriadol, gan gynnwys yr arfer o dynnu enwau disgyblion oddi ar y gofrestr neu ddefnyddio arferion cofrestru amhriodol. Dyma ganfyddiadau'r adroddiad:

- Yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion Blwyddyn 10 ar y gofrestr nad ydynt yn symud ymlaen yn uniongyrchol i Flwyddyn 11 bron wedi dyblu (o 780 o ddisgyblion, 2.3 y cant o'r garfan Blwyddyn 10 flaenorol yn 2013-14 i 1,298 o ddisgyblion, 4.2 y cant yn 2018-19);
- Yn 2017-2018, roedd canran y disgyblion wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 (0.5 y cant neu 168 o ddisgyblion) chwe gwaith yn fwy na'r gyfradd yn 2013-2014 (0.09 y cant neu 31 o ddisgyblion). Yn 2018-19, gostyngodd hyn i 91 o ddisgyblion (0.29 o'r garfan Blwyddyn 10 flaenorol). Mewn sawl achos, nid yw disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 i gwblhau Cyfnod Allweddol 4 ond yn hytrach maent yn gadael yr ysgol ar ôl dwy flynedd ym Mlwyddyn 10;
- Mae'r data'n awgrymu y gallai ychydig o ysgolion fod yn cofrestru disgyblion i ail-wneud Blwyddyn 10 neu flwyddyn ysgol arall fel ffordd o sicrhau nad yw data'r disgyblion hyn yn cael ei gynnwys yn nata perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yr ysgol;
- Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd â datganiad neu fynediad at ymyrraeth gweithredu gan yr ysgol a mwy yn llawer mwy tebygol o beidio â symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 na'u cyfoedion; ac
- Ar gyfer y garfan o ddisgyblion a oedd ym Mlwyddyn 10 yn 2017-18, roedd y rhai a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim dair gwaith yn fwy tebygol na'r rhai nad oeddent yn gymwys o beidio â symud ymlaen yn uniongyrchol i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd.

Darllen pellach

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. - **Presenoldeb ac Ymddygiad** (2013). Er nad dyna oedd ffocws ymchwiliad y Pwyllgor, roedd yr adroddiad hwn yn ystyried gwahardd ac addysg heblaw yn yr ysgol.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **Ei Ymchwiliad cyfredol i Addysg Heblaw yn yr Ysgol.**

Llywodraeth Cymru

Cynnwys a chynorthwyo disgyblion (2016)

Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (Ebrill 2015)

Adolygiad o Arferion Cofrestru Disgyblion awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (Hydref 2018)

Dadansoddiad o Baneli Cyfeirio awdurdodau lleol a / neu arferion ar gyfer dysgwyr sy'n cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (Hydref 2018)

Estyn

Addysg Heblaw yn yr Ysgol: arolwg arfer dda (Mehefin 2015)

Cyhoeddiadau yn ymwneud â Lloegr

Adolygiad Timpson o Waharddiadau o Ysgolion (Mai 2019)

Off-rolling: exploring the issue (Ofsted, Mai 2019)

Who's Left 2018 (Education Datalab, Mehefin 2018)

Unexplained pupil exits from schools: A growing problem? (Y Sefydliad Polisi Addysg, 2019)